

CYNGOR

(CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Mercher, 24 Mawrth 2021

Y Maer: Councillor S.Jones

Y Dirprwy Faer Councillor J.Warman

Cynghorwyr: A.R.Aubrey, S.Bamsey, D.Cawsey, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, M.Crowley, A.P.H.Davies, N.J.E.Davies, O.S.Davies, C.Edwards, J.Evans, S.E.Freeguard, C.Galsworthy, W.F.Griffiths, J.Hale, M.Harvey, N.T.Hunt, S.K.Hunt, J.Hurley, C.James, H.N.James, C.J.Jones, D.Jones, J.Jones, L.Jones, D.Keogh, S.A.Knoyle, E.V.Latham, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, J.Miller, S.Miller, J.D.Morgan, S.Paddison, S.M.Penry, D.M.Peters, M.Protheroe, L.M.Purcell, S.Rahaman, P.A.Rees, S.H.Reynolds, A.J.Richards, P.D.Richards, M.Spooner, A.J.Taylor, R.L.Taylor, D.Whitelock, C.Williams, A.Wingrave, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock

Swyddogion sy'n Bresennol: S.Curran, A.Evans, C.Griffiths, A.Jarrett, H.Jenkins, S.Rees, M.Shaw a/ac J.Woodman-Ralph

1. **CYHOEDDIADAU'R MAER**

Gyda thristwch mawr y rhoddodd y Maer wybod i'r cyngor am farwolaeth y cyn-gynghorydd Malcolm Isaac Jones, a gynrychiolodd Ward Tonmawr ac a oedd yn Faer y Fwrdeistref Sirol rhwng 1998 a 1999. Roedd hefyd yn Gynghorydd Sir i Gyngor Sir blaenorol Gorllewin Morgannwg cyn ei ad-drefnu.

Atgoffodd y Maer y cyngor hefyd mai ddoe oedd Diwrnod Cenedlaethol Myfyrdod a gofynnodd i'r Aelodau gofio'r bywydau niferus a gollwyd o ganlyniad i bandemig COVID-19. Roedd meddyliau'r cyngor gyda ffrindiau a theuluoedd y rheini a gollodd eu bywydau.

Fel arwydd o barch, cynhaliaodd yr aelodau funud o ddistawrwydd.

Roedd y cyngor hefyd yn dymuno gwellhad buan i'r Cynghorydd Rhydian Mizen o'i gyfnod diweddar o salwch.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Esboniodd y Prif Weithredwr fod gan y Cyfarwyddwyr Corfforaethol, y Penaethiaid Gwasanaeth a'r Swyddogion a oedd yn bresennol yn y cyfarfod heddiw ddatganiadau o fuddiannau personol ac ariannol mewn perthynas â Datganiad Polisi Tâl 2021/2022 ac y byddai'n rhaid i bob un ohonynt adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai'r Pennaeth Adnoddau Dynol (gyda'i ganiatâd) yn parhau i ateb unrhyw gwestiynau gan Aelodau a allai godi ynghylch yr adroddiad. Hefyd, byddai Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd hefyd yn aros yn y cyfarfod.

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiadau o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

Y Cynghorydd N T Hunt	Parthed: Datganiad Polisi Tâl 2021/2022 gan fod ganddo fangre masnachu yng nghanol Tref Port Talbot.
--------------------------	--

3. **DATGANIAD POLISI TÂL 2021/2022**

Cyflwynodd y Cynghorydd Doreen Jones, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Chydraddoldeb yr adroddiad a'i argymhell i'r cyngor i'w gymeradwyo i'w gyhoeddi ar wefan y cyngor.

Holodd yr Aelodau pam mai dim ond 47% o'i wariant gros yr oedd y cyngor yn ei dalu ar gyflogau, pan mae cynghorau eraill, fel y cynghorir yng Nghanllaw i Gynghorwyr y Gymdeithas Llywodraeth Leol, yn gallu gwario mwy na 50% o'r gwariant refeniw gros. Esboniodd swyddogion y byddai hyn yn cael ei godi gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, ond bod y cyfraddau cyflog yn cael eu talu yn unol â'r set o raddfeydd cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Mae cynghorau'n cytuno ar delerau ac amodau ar sail unigol gydag undebau llafur. Lleihaodd y cyngor hwn ei delerau a'i amodau yn 2018 fel dewis amgen i ddiswyddiadau a drafodwyd gyda chydweithwyr mewn undebau llafur. Byddai maint y gweithlu hefyd yn effeithio ar y gwariant sydd gan bob cyngor o ran cyflogau.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod rhai cynghorau eraill yn cynnig cynlluniau disgownt i weithwyr. A oes gan y cyngor hwn unrhyw gynlluniau tebyg? Esboniodd swyddogion fod amrywiaeth o gynlluniau ar gael i staff. Sefydlwyd y Grŵp Iechyd a Lles i gynnig cyfle i weithwyr ymuno â'r grŵp i gael mynediad at amrywiaeth o fanteision ac un ohonynt oedd gostyngiadau mewn siopau ar y stryd fawr. Mae gweithwyr hefyd yn gallu cael mynediad at Hamdden Celtic am brisiau gostyngol. Mae gan y cyngor hefyd fenter Beicio i'r Gwaith sy'n caniatáu i staff gael mynediad at feiciau ac offer a thalu amdano drwy gynllun aberthu cyflog. Roedd y pecyn tâl a gynigiwyd i weithwyr yn seiliedig ar yr argymhelliad a oedd yn seiliedig ar y bargeinio cyflog cenedlaethol a bennir ar gyfer y cyngor ar lefel genedlaethol.

Roedd yr Aelodau'n falch o weld bod y bwlch rhwng y cyflog isaf a'r cyflog uchaf yn lleihau gan ystyried cyfrifoldebau rolau. Gofynnodd yr Aelodau a ellid ystyried lefel genedlaethol yn y dyfodol i ddyfarnu codiadau cyflog drwy werth ariannol yn hytrach na chanran, a fyddai o fantais i'r rhai â chyflog is.

PENDERFYNWYD: Cyhoeddi'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2021/2022 ar wefan y cyngor.

4. **ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2019/2020**

Cyflwynodd y Cynghorydd D Morgan, Cadeirydd y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad a'i argymhell i'r cyngor i'w gymeradwyo.

Cafwyd cadarnhad bod gweithredu argymhellion y Grŵp Archwilio Anabledd, a gadarnhawyd gan y cyngor, wedi'i oedi oherwydd pandemig COVID-19 ond byddai'n cael ei ddatblygu gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd cyn gynted â phosib.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd 2019/2020.

5. **EITEMAU BRYS**

Dywedodd yr Arweinydd wrth yr Aelodau mai hwn oedd cyfarfod olaf y cyngor y byddai Mr A Evans, Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes, yn bresennol ynddo oherwydd ei ymddeoliad sydd

ar ddod. Talodd yr Arweinydd a'r Aelodau deyrnged i'r gwaith a wnaed ac ymrwymiad Mr Evans i fywydau pobl ifanc a phlant Castell-nedd Port Talbot yn ystod ei gyfnod fel Cyfarwyddwr a dymunodd ymddeoliad hir a hapus iddo. Ymatebodd Mr Evans, gan ddiolch i'r Aelodau, y colegau a'r staff am yr holl gefnogaeth a gafodd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.